



## **CYNLLUN IAITH GYMRAEG**

## **WELSH LANGUAGE SCHEME**

Paratowyd Cynllun Iaith y Cyngor o dan Ddeddf Iaith 1993 a Mesur y Gymraeg 2011. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 19/11/2024.

The Council's Welsh Language Scheme was prepared under the Welsh Language Act 1993 and The Welsh Language Measure 2011. This Scheme received the approval of the Welsh Language Commissioner on 19/11/2024.

	NOTES:
<p>O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i sawl sefydliad cyhoeddus baratoi cynllun iaith Gymraeg. Yn gyffredinol, mae sefydliadau'n trosglwyddo'n raddol o weithredu cynlluniau iaith Cymraeg i safonau'r Gymraeg, a osodir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, trosglwyddir y swyddogaethau a roddwyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gan adran 3 Deddf 1993 i'r Comisiynydd. Felly, bydd y sefydliadau hynny nad ydynt yn gweithredu Safonau'r Gymraeg ar hyn o bryd yn parhau i weithredu cynlluniau iaith o dan Ddeddf 1993 ond gan gyfeirio nawr at Gomisiynydd y Gymraeg yn lle'r Bwrdd.</p>	<p>Under the Welsh Language Act 1993, several public organisations are required to prepare a Welsh language scheme. In general, organisations are gradually transferring from implementing Welsh language schemes to Welsh language standards, set by the Welsh Language Commissioner. However, under the Welsh Language (Wales) Measure 2011, the functions conferred on the Welsh Language Board by section 3 of the 1993 Act are transferred to the Commissioner. Therefore, those organisations not currently implementing Welsh Language Standards will continue to operate language schemes under the 1993 Act but with reference now to the Welsh Language Commissioner instead of the Board.</p>
<p>Yn 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol i gefnogi cynghorau tref a chymuned i weithredu darpariaethau perthnasol <a href="#">Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021</a>.</p> <p>Mae'r canllawiau i gynghorau cymuned yn datgan '<i>...mae disgwyl iddynt gadw at brif egwyddor y Mesur a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</i>' Ar ben hynny, '<i>Bydd y cyngor cymuned am ystyried sut y gallai annog a galluogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd o'r cyngor cymuned, gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i unrhyw un nad yw'n deall y Gymraeg.</i>'</p> <p>Hefyd '<i>Lle bo cyngor cymuned wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg, mae'n bosibl y bydd y cynghorau hynny wedi gwneud ymrwymiad drwy'r Cynllun i gyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol yn Gymraeg. Os nad oes cynllun o'r fath wedi'i fabwysiadu, caiff cynghorau eu hannog i gyhoeddi'n ddwyieithog er mwyn rhoi dewis iaith i'w cymuned.</i>'</p>	<p>In 2022 Welsh Government published statutory guidance to support community and town councils to implement the relevant provisions from the <a href="#">Local Government and Elections (Wales) Act 2021</a>.</p> <p>The guidance states that community councils '<i>are expected to uphold the main principle of the (Welsh Language) Measure and treat the Welsh language no less favourably than English</i>'. Furthermore, that '<i>The community council will want to consider how it could encourage and enable the use of Welsh language at community council meetings, with the help of simultaneous translation for anyone who does not understand Welsh</i>'.</p> <p>Also '<i>Where the community council has adopted a Welsh Language Scheme, those councils may have made a commitment through the Scheme to publish their annual reports in Welsh. Where no such scheme has been adopted, councils are encouraged to publish bilingually to provide language choice to their community.</i>'</p>
<p>Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi cyngor ar sut i gefnogi gweithio dwyieithog gan gynnwys:</p> <p><a href="#">drafftio dwyieithog</a>  <a href="#">cyfieithu testun</a>  <a href="#">defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb</a>  <a href="#">cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog</a></p>	<p>The Welsh Language Commissioner has provided advice on how to support bilingual working including:</p> <p><a href="#">bilingual drafting</a>  <a href="#">text translation</a>  <a href="#">using Welsh face-to-face</a>  <a href="#">holding bilingual video meetings</a></p>

<b>CYNLLUN IAITH CYNGOR CYMUNED PENTREF LLANEIRWG</b>		<b>OLD ST MELLONS COMMUNITY COUNCIL WELSH LANGUAGE SCHEME</b>
<p><b>DATGANIAD O EGWYDDOR:</b> Mae Cyngor Cymuned Pentref Llaneirwg wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg â'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Llaneirwg.</p>	<p><b>1</b></p>	<p><b>STATEMENT OF PRINCIPLE:</b> Old St Mellons Community Council has adopted the principle that in the conduct of public business in Wales it will treat Welsh and English on a basis of equality. This scheme sets out how the Council will implement that principle in the provision of services to the public in Old St Mellons.</p>
<p>Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith, mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio'u dewis iaith ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd y Cyngor felly yn cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w ddefnyddio wrth ymdrin ag ef.</p>	<p>1.1</p>	<p>The Council recognises that members of the public can express their views and needs better in their preferred language, that enabling them to use their preferred language is a matter of good practice rather than a concession and that the denial of that right could place members of the public at a real disadvantage. The Council will therefore offer the public the right to choose which language to use in dealings with the Council.</p>
<p>Nod y Cyngor mewn perthynas â'r Cynllun hwn yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• galluogi pawb sydd yn defnyddio gwasanaeth neu drafod gyda'r Cyngor neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd i wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn .</li> <li>• hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned</li> <li>• annog eraill i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.</li> </ul>	<p>1.2</p>	<p>In relation to this Scheme, the Council aims:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• to enable everyone who receives or uses the Council's services or contributes to the democratic process to do so through the medium of Welsh or English, according to personal choice.</li> <li>• to encourage the use of the Welsh language in the community</li> <li>• to encourage others to use the Welsh language in the community.</li> </ul>

<p>Ymhlith prif ddyletswyddau'r Cyngor mae:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ ystyried materion cynllunio;</li> <li>○ awgrymu gwelliannau yn ymwneud â phriffyrdd;</li> <li>○ cydweithio â'r heddlu i ddiogelu'r gymuned;</li> <li>○ gofalu am seddau eistedd a byrddau arddangos cyhoeddus;</li> </ul>	1.3	<p>Amongst the Council's main duties are:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ consider planning matters;</li> <li>○ suggest improvements regarding highways;</li> <li>○ work with the police to safeguard the community;</li> <li>○ look after public seating and notice boards;</li> </ul>
<p>Mae gan y Cyngor 9 o aelodau etholedig, ac mae'r Clerc yn gweithio'n rhan amser.</p> <p>Mae nifer o grwpiau cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd yr ardal. Mae'r Cyngor yn gweithio i hyrwyddo datblygiadau cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol gan ymateb i anghenion lleol er mwyn gwella safonau byw yn yr ardal.</p>	1.4	<p>The Council has 9 of elected members, and the Clerk works part time.</p> <p>There are a number of social, cultural and community groups that play a prominent part in the life of the community. The Council is working to promote community development and social activities and respond to local needs to improve the living standards in the area.</p>
<p><b>CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU</b></p>	2	<p><b>SERVICE PLANNING AND DELIVERY</b></p>
<p><b>Polisiâu a Mentrau</b></p>	2.1	<p><b>Policies and Initiatives</b></p>
<p>Wrth ddyfeisio polisiâu a mentrau newydd, bydd y Cyngor yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• asesu eu heffaith ieithyddol gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg.</li> <li>• hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, ac yn symud yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn bob cyfle a ddaw.</li> <li>• ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw fwrriad fyddai'n effeithio ar y Cynllun hwn, neu Gynllun unrhyw gorff cyhoeddus arall. Ni newidir y Cynllun hwn heb gytundeb y Comisiynydd ymlaen llaw .</li> <li>• sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud â llunio polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun, ac o gyfrifoldebau'r Cyngor dan Ddeddf yr</li> </ul>	2.1	<p>In devising new policies and initiatives, the Council will:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• assess their linguistic effect and ensure that they are consistent with the Welsh Language Scheme.</li> <li>• promote and facilitate the use of Welsh wherever possible and will move closer to implementing the principle of equality fully at every opportunity.</li> <li>• consult with the Welsh Language Commissioner in advance regarding proposals that will affect the scheme, or the scheme of any other public body. The scheme will not be altered without the Commissioner's agreement.</li> <li>• ensure that those involved in formulating policy will be aware of the Scheme, and of the Council's responsibilities under the</li> </ul>

<p>iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>sicrhau y bydd mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiau a mentrau newydd ar waith .</li> </ul>		<p>Welsh Language Act 1993 and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>ensure that the measures contained in the Scheme are applied to new policies and initiatives when they are implemented.</li> </ul>
<b>SAFONAU ANSAWDD</b>	<b>2.2</b>	<b>STANDARDS OF QUALITY</b>
Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth o'r un safon uchel ac yr un mor brydlon yn y ddwy iaith .	2.2.1	Services provided in English or Welsh will be of an equally high standard and equally prompt.
<b>YMWNEUD Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG</b>	<b>3</b>	<b>DEALING WITH THE WELSH-SPEAKING PUBLIC</b>
<b>Cyfathrebu Ysgrifenedig (post ac e-bost)</b>	<b>3.1</b>	<b>Written Communication (mail and e-mail)</b>
Bydd y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.	3.1.1	The Council will welcome correspondence in either Welsh or English.
Ni fydd ateb gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn achosi unrhyw oedi.	3.1.2	Correspondence through the medium of Welsh will not in itself lead to any delay.
Os derbynnir gohebiaeth yn y Gymraeg caiff ei ateb yn Gymraeg .	3.1.3	Every correspondence received in Welsh will be answered in Welsh.
Bydd pob gohebiaeth, yn dilyn sgwrs dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn Gymraeg neu gyfarfod lle sefydlwyd mai'r Gymraeg yw dewis iaith person yn Gymraeg, er mae'n bosibl na chynhaliwyd y drafodaeth yn y Gymraeg .	3.1.4	All correspondence following a telephone or face-to-face conversation in Welsh or a meeting where it was established that Welsh is the preferred language of the person, although the discussion may not have been held through the medium of Welsh, will be in Welsh .
Bydd pob gohebiaeth gydag aelod o'r cyhoedd yn cael ei chychwyn yn ei ddewis iaith ef/hi os yw'n hysbys, fel arall bydd yn ddwyieithog.	3.1.5	All correspondence with a member of the public will be initiated in his/her preferred language if known, otherwise it will be bilingual.
Bydd pob llythyren gylchol neu safonol i'r cyhoedd yn ddwyieithog.	3.1.6	All circular or standard letters to the public will be bilingual.
Bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i gyfieithu gohebiaeth yn ôl yr angen er mwyn ymateb i ohebiaeth yn brydlon yn yr iaith wreiddiol.	3.1.7	The Council will make arrangements to translate correspondence as needed in order to respond to correspondence promptly in the original language.

Clerc y Cyngor a fydd yn gyfrifol am gyfieithu unrhyw ohebiaeth.	3.1.8	The Clerk of the Council will be responsible for the translation of any correspondence.
Bydd papur pennawd swyddogol y Cyngor yn cynnwys datganiad yn y ddwy iaith gan ei gwneud yn glir bod croeso i ohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.	3.1.9	The Council's official headed paper will include a statement in both languages making it clear that correspondence is welcome in either Welsh or English.
<b>Galwadau Ffôn</b>	<b>3.2</b>	<b>Telephone Calls</b>
Bydd y Cyngor yn cyfarch galwyr ffôn yn ddwyieithog a bydd yn croesawu galwadau i'r Cyngor yn Gymraeg.	3.2.1	The Council will greet telephone callers bilingually and will welcome calls to the Council in Welsh.
Os nad yw'r Clerc yn ddwyieithog, bydd ef/hi yn cynnig trefnu i aelod o'r Cyngor sy'n siarad Cymraeg ddychwelyd yr alwad pan fydd aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg, neu'n esbonio bod croeso i'r unigolyn barhau â'r alwad yn Saesneg neu anfon ei ymholiad ar ffurf ysgrifenedig yn Gymraeg, lle caiff ei drin yn brydlon.	3.2.2	If the Clerk is not bilingual, he/she will offer to arrange for a Welsh speaking Council member to return the call when a member of the public wishes to speak Welsh or explain that the individual is welcome to continue with the call in English or send in their enquiry in written form in Welsh, where it will be dealt with promptly.
<b>Cyfarfodydd Cyhoeddus A Drefnir Gan Neu Ar Ran Y Cyngor</b> <i>[sef cyfarfodydd y mae'r Cyngor yn eu trefnu gyda'r cyhoedd, er enghraifft, dargyfeirio ffyrdd, gwella cyfleusterau neu gyfarfod cyffredinol blynyddol. Nid cyfarfodydd rheolaidd y Cyngor y gall aelodau o'r cyhoedd eu mynychu i wrando, ond na allant gyfrannu atynt heb wahoddiad ymlaen llaw – gweler 3.4.]</i>	<b>3.3</b>	<b>Public Meetings Organised By Or On The Behalf Of The Council</b> <i>[namely meetings the Council arranges with the public, for example, road diversion, improve facilities or annual general meeting. Not the Council's regular meetings where members of the public can attend and listen, but not contribute without prior invitation – see 3.4.]</i>
Croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan y Cyngor. Gwneir hyn yn glir yn y papurau sy'n galw neu'n hysbysebu'r cyfarfod.		Contributions are welcomed in either Welsh or English at public meetings held by the Council. This will be stated clearly in the notices that inform or publicise the meeting.
Bydd unrhyw gyfarfod cyhoeddus a gynullir i drafod yr iaith Gymraeg, addysg Gymraeg, Treth Gyngor neu unrhyw wybodaeth am etholiadau/isetholiadau lleol yn ddwyieithog.	3.3.1	Any public meeting that is held to discuss the Welsh language, Welsh medium education, Council Tax or any information regarding local elections/by-elections will be bilingual.
Bydd yr holl gyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn	3.3.2	All publicity for public meetings will be bilingual and will invite those

ddwyieithog, a bydd yn gwahodd y rhai sy'n mynychu i roi gwybod i'r Clerc o'u dewis iaith ymlaen llaw fel y gellir gwneud trefniadau cyfieithu priodol.		attending to notify the Clerk of their language choice in advance so that appropriate translation arrangements can be made.
Bydd y Cyngor yn darparu cyfleusterau cyfieithu, yn ôl yr angen, ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor	3.3.3	The Council will provide translation facilities, according to need, for public meetings arranged by or on behalf of the Council
Pan fydd y Cyngor yn ymwybodol bod aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg mewn cyfarfod cyhoeddus a fyddai fel arall yn cael ei gynnal yn Saesneg, dylid parchu hyn drwy ddarparu trefniadau cyfieithu priodol.	3.3.4	When the Council is aware that a member of the public wishes to speak Welsh in a public meeting that would otherwise be conducted in English, this should be respected by providing appropriate translation arrangements.
Wrth gychwyn y cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn dwyn sylw mynychwyr at wasanaeth cyfieithu ar y pryd pan fo ar gael.		At the start of the meeting, the Chair shall draw attendees' attention to interpretation services when available.
Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig megis taflenni neu sleidiau sy'n cael eu defnyddio mewn cyfarfod cyhoeddus sy'n trafod y Gymraeg, addysg Gymraeg, Treth Gyngor neu wybodaeth am etholiadau/isetholiadau lleol yn ddwyieithog.	3.3.5	Any written materials such as leaflets or acetates that are used in public meetings about the Welsh language, Welsh medium education, Council Tax or information about local elections/by-elections will be bilingual.
<b>Cyfarfodydd y Cyngor</b> <i>[sef cyfarfodydd rheolaidd y Cyngor, sydd ar agor i'r cyhoedd, ond lle nad yw'r cyhoedd yn rhan o'r cyfarfod.]</i>	<b>3.4</b>	<b>Council Meetings</b> <i>[namely the Council's regular meetings, which are open to the public, but where the public are not part of the meeting.]</i>
Bydd pob hysbysiad a Rhaglen o gyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog .	3.4.1	The notice and agenda for the Council's meetings will be available bilingually.
Bydd fersiwn ddwyieithog o'r cofnodion ar gael i'r cyhoedd.	3.4.2	A bilingual version of the minutes will be available to the public.
Bydd y Cyngor yn ymateb i geisiadau am wybodaeth ynghylch y cofnodion, neu rannau o'r cofnodion yn newis iaith yr unigolyn.	3.4.3	The Council will respond to requests for information in relation to the minutes, or sections of the minutes in the preferred language of the individual.

<b>Cyfarfodydd Wyneb Yn Wyneb Gyda'r Cyhoedd</b>	<b>3.5</b>	<b>Face-to-face Meetings With The Public</b>
Bydd y Cyngor yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg a bydd y Clerc yn sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno trafod materion yn Gymraeg i wneud hynny gyda swyddog dwyieithog neu aelod dwyieithog o'r Cyngor. Os na all unrhyw un o'r swyddogion na'r aelodau etholedig siarad Cymraeg, bydd y Clerc yn esbonio'r sefyllfa yn gwrtais ac yn cynnig cyfle i'r unigolyn drafod y mater yn Saesneg neu anfon ei ymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg.	3.5.1	The Council will welcome meetings with the public in either Welsh or English and the Clerk will ensure that appropriate arrangements are made to enable any member of the public who wishes to discuss matters in Welsh to do so with a bilingual officer or Member of the Council. If none of the officers or elected member can speak Welsh, the Clerk will politely explain the situation and offer the individual the opportunity to discuss the matter in English or send in their enquiry in written form in Welsh.
<b>3.6 Ymwneud Arall â'r Cyhoedd</b>	<b>3.6</b>	<b>Other Dealings With The Public</b>
Pan fydd y Cyngor yn cysylltu â'r cyhoedd drwy dechnoleg gwybodaeth, sef cyfrifiaduron, gwefan, e-bost neu sgriniau cyffwrdd, bydd y wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i'r cyhoedd.	3.6.1	When the Council contacts the public via information technology, namely computers, website, e-mail or touch screens, this information will be available to the public in both Welsh and English.
<b>WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR</b>	<b>4</b>	<b>THE COUNCIL'S PUBLIC FACE</b>
<b>Hunaniaeth Gorfforaethol</b>	<b>4.1</b>	<b>Corporate Identity</b>
Bydd hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn ddwyieithog.	4.1.1	The Council's corporate identity will be bilingual.
Bydd enw a chyfeiriad y Cyngor yn ymddangos yn ddwyieithog ar bapur pennawd swyddogol, papurau ffacs a slipliau cyfarch, ac unrhyw ddeunydd hyrwyddo arall.	4.1.2	The name and address of the Council will appear bilingually on official headed paper, fax papers and compliment slips, and any other promotional material.
<b>Arwyddion</b> [ <i>Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i arwyddion swyddfa'r Cyngor, os oes swyddfa'n bodoli, ac unrhyw arwyddion cyhoeddus allanol.</i> ]	<b>4.2</b>	<b>Signage</b> [ <i>This guideline is relevant to Council office signs, if an office exists, and any external public signs.</i> ]
Bydd pob arwydd gwybodaeth newydd neu arwyddion sy'n disodli arwyddion blaenorol ar eiddo'r Cyngor yn ddwyieithog, yn ogystal ag unrhyw arwyddion gwybodaeth gyhoeddus eraill y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Bydd y ddwy iaith yn ymddangos ochr yn ochr, gyda'r fersiwn Gymraeg ar y chwith neu uwchben y Saesneg. Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd testun yn gyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg.	4.2.1	All new information signs or those replacing previous signs on Council property will be bilingual, as will any other public information signs for which the Council is responsible. The two languages will appear side by side, with the Welsh version appearing to the left or above the English. The size, quality, legibility and prominence of text will be equal in Welsh and English.



<b>Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd</b>	<b>4.3</b>	<b>Publishing and Printing Material</b>
Bydd deunydd a anelir at y cyhoedd megis dogfennau, a deunydd esboniadol sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg neu addysg Gymraeg, Treth y Cyngor, gwybodaeth am etholiad/isetholiad lleol a ffurflenni grant yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un dogfen. Argraffir y ddau fersiwn ochr yn ochr lle bo'n bosibl er mwyn hwyluso croesgyfeirio, dosbarthu a chynnig dewis iaith.	4.3.1	All publications aimed at the public, such as documents and explanatory material dealing with the Welsh language, Welsh medium education, Council Tax, information about local elections/by-elections and grant forms will be bilingual with both language versions forming one document. The versions will be printed side-by-side where possible to facilitate easy cross-reference, distribution and offer language choice.
Os caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi ar wahân, byddant yn ymddangos ar yr un pryd, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd a'r un mor hygyrch.	4.3.2	If Welsh and English versions are published separately, they will appear simultaneously, be distributed together and be equally accessible.
Bydd datganiadau i'r wasg sy'n ymwneud â'r Gymraeg, addysg Gymraeg, Treth Gyngor, gwybodaeth am etholiadau/isetholiadau lleol a ffurflenni grant yn ddwyieithog a byddant yn benodol yn targedu papurau bro (papurau cymunedol misol). [Y papur bro ar gyfer ardal Caerdydd yw <i>Y Dinesydd</i> ].	4.3.3	Press releases dealing with the Welsh language, Welsh medium education, Council Tax, information about local elections/by-elections and grant forms will be bilingual and will specifically target papurau bro (monthly community papers). [The papur bro for the Cardiff area is <i>Y Dinesydd</i> ].
Bydd yr holl weithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn ddwyieithog.	4.3.4	All Advertising and publicity activities will be bilingual.
Bydd hysbysebion a hysbysiadau cyngor sy'n ymwneud â'r Gymraeg, addysg Gymraeg, Treth Gyngor, gwybodaeth am etholiadau/isetholiadau lleol sydd i'w rhoi yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu unrhyw gyfrwng arall yn ddwyieithog a byddant hefyd yn targedu'r papur bro lleol.	4.3.5	Council advertisements and notices dealing with the Welsh language, Welsh medium education, Council Tax, information about local elections/by-elections to be placed in the press, on notice boards or any other medium will be bilingual and will also target the local papur bro.
Bydd hysbysebion swyddi yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg/dwyieithog ac yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg.	4.3.6	Job advertisements will appear bilingually in English/bilingual publications and in Welsh only in Welsh language publications.
<b>Swyddogaethau Statudol a Hyrwyddo</b>	<b>4.4</b>	<b>Statutory and Promotional Functions</b>
Yn y wybodaeth sy'n cael ei hanfon at y rhai sy'n bwriadu gwneud cais am	4.4.1	In the information that is sent to those intending to apply for financial

<p>gymorth ariannol tuag at weithgareddau lleol, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn glir bod angen i ymgeiswyr ddisgrifio sut maent yn bwriadu adlewyrchu natur ieithyddol ddwyieithog y gymuned a'u cynulleidfa o ran y gweithgaredd y maent angen cymorth ariannol ar ei gyfer. Wrth ystyried ceisiadau, bydd y Cyngor yn sicrhau bod ymgeiswyr wedi adlewyrchu natur ieithyddol y gymuned a'u cynulleidfa yn briodol yn eu cais.</p>		<p>assistance towards local activities, the Council will make it clear that there is need for applicants to describe how they intend to reflect the bilingual nature of the community and their audience in the activity for which they require financial support. When considering applications, the Council will ensure that applicants have appropriately reflected the linguistic nature of the community and their audience in their application.</p>
<p>Bydd y Cyngor hefyd yn hysbysu'r ymgeisydd y gall y fenter iaith leol, <i>Menter Caerdydd</i>, ddarparu cyngor a chymorth ymarferol ynghylch cynnwys dwyieithog y gweithgaredd, gan gynnwys gwybodaeth am grantiau sydd ar gael at y diben hwn.</p>	4.4.2	<p>The Council will also notify the applicant that the local language enterprise, <i>Menter Caerdydd</i>, can provide advice and practical assistance in relation to the bilingual content of the activity, including information on grants available for this purpose.</p>
<p>Pan ymgynghorir â'r Cyngor ar geisiadau cynllunio, bydd y Cyngor yn annog ymgeiswyr i godi arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog mewn lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau a siopau ac archfarchnadoedd.</p>	4.4.3	<p>When the Council is consulted on planning applications, the Council will encourage applicants to erect Welsh or bilingual signs in locations such as offices, businesses and shops and supermarkets.</p>
<p>Pan ymgynghorir â'r Cyngor ar enwi strydoedd, datblygiadau ac ystadau newydd, bydd y Cyngor yn cefnogi'r defnydd o enwau Cymraeg. Lle mai dim ond mân wahaniaethau sy'n bodoli rhwng sillafiad lle, stryd, ward neu enwau cymunedol, bydd y Cyngor yn cefnogi mabwysiadu'r fersiwn Gymraeg. Mewn unrhyw achos lle mae ansicrwydd, Bydd y Cyngor yn dilyn cyngor Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg.</p>	4.4.4	<p>When the Council is consulted on the naming of streets, developments and new estates, the Council will support the use of Welsh names. Where only minor differences exist between the Welsh and English spelling of place, street, ward, or community names, the Council will support the adoption of the Welsh version. In any cases where there's uncertainty, the Council will follow the advice of the Welsh Language Commissioner's Place-names Standardisation Panel.</p>
<p><b>Gwasanaethau gan Bartïon Eraill</b></p>	4.5	<p><b>Services by Other Parties</b></p>
<p>Bydd unrhyw drefniadau a wneir gan y Cyngor i ddefnyddio trydydd parti i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ei ran yn cydymffurfio â'r gofynion penodol yn y Cynllun fel yr amlinellwyd gan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn amlinellu pa fesurau perthnasol yn y Cynllun y bydd yn rhaid i'r trydydd parti lynu atynt o fewn y manylebau tendro neu gontract.</p>	4.5.1	<p>Any arrangements made by the Council to use a third party to deliver services to the public on its behalf will comply with the specific requirements in the Scheme as outlined by the Council. The Council will outline which relevant measures in the Scheme the third party will have to adhere to within the tendering or contract specifications.</p>

Bydd angen i'r trydydd parti gadarnhau â thystiolaeth ei fod wedi cydymffurfio ag agweddau perthnasol y Cynllun.	4.5.2	The Third party will need to confirm by way of evidence that it has complied with the relevant aspects of the Scheme.
<b>GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN</b>	<b>5</b>	<b>IMPLEMENTING AND MONITORING THE SCHEME</b>
<b>Staffio</b>	<b>5.1</b>	<b>Staffing</b>
Pan fydd swydd Clerc y Cyngor yn dod yn wag, caiff ei nodi yn yr hysbyseb bod sgiliau dwyieithog yn hanfodol ar gyfer y swydd er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog. Os na fydd recriwtio yn llwyddiannus, yna gellir gwneud apwyntiad ar y sail bod yr ymgeisydd yn ymrwymo o fewn 12 mis i ddatblygu sgiliau Cymraeg sylfaenol i o leiaf CEFR lefel 1 (dechreuwyd - deall a defnyddio ymadroddion bob dydd ac ymadroddion syml a ddefnyddir yn aml iawn i ddiwallu anghenion uniongyrchol) a gweithio wedyn i gyflawni lefel uwch.	5.1.1	When the position of Clerk to the Council becomes vacant it will be noted in the advert that bilingual skills are essential for the post to ensure that the Council can offer a bilingual service. If recruitment is unsuccessful, then an appointment may be made on the basis of the applicant undertaking within 12 months to develop basic Welsh language skills to at least CEFR 1 level (beginner - understand and use very frequently used everyday expressions and simple phrases to meet immediate needs) and working subsequently to achieve a higher level.
<b>Trefniadau Gweinyddol</b>	<b>5.2</b>	<b>Administrative Arrangements</b>
Mae gan y cynllun hwn gefnogaeth lawn y Cyngor.	5.2.1	This scheme has the full support of the Council.
Bydd y Clerc yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd o fewn y Cyngor a bod canllawiau a chyfarwyddiadau ar gael i bawb sy'n ymwneud â gweithredu'r Cynllun.	5.2.2	The Clerk will be responsible for implementing the Scheme on a day-to-day basis within the Council and that guidelines and instructions are made available to all involved in the Scheme's implementation.
<b>Y Gwasanaeth Cyfieithu</b>	<b>5.3</b>	<b>The Translation Service</b>
Bydd y Clerc yn gyfrifol am anghenion cyfieithu ysgrifenedig y Cyngor, a bydd hefyd yn gyfrifol am safon yr holl destun Cymraeg a gynhyrchir.	5.3.1	The Clerk will be responsible for the written translation needs of the Council and will also be responsible for the standard of all Welsh text produced.
Os na all y Clerc gwblhau'r gwaith o fewn yr amserlen, bydd y Cyngor yn cyflogi cyfieithydd allanol.	5.3.2	If the Clerk cannot complete the work within the timescale, the Council will employ an external translator.
Bydd y Clerc yn gyfrifol am drefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer	5.3.3	The Clerk will be responsible for arranging simultaneous translation

holl anghenion y Cyngor.		facilities for all the Council's needs.
Pan fo angen, bydd y cyfleuster hwn ar gael ar gyfer pob cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor, ac mewn unrhyw gyfarfod arall y Cyngor os mai dyna benderfyniad y Cyngor.	5.3.4	When needed, this facility will be available for all public meetings arranged by or on behalf of the Council, and in any other Council meeting if that is the decision of the Council.
<b>Monitro</b>	<b>5.4</b>	<b>Monitoring</b>
Clerc y Cyngor a fydd yn gyfrifol am fonitro'r cynllun. [Ymhlith y ffynonellau cyngor sydd ar gael mae Comisiynydd y Gymraeg <a href="mailto:post@cyg-wlc.cymru">post@cyg-wlc.cymru</a> a thîm polisi Caerdydd Ddwyeithog <a href="mailto:WelshLanguagePolicyMatters@cardiff.gov.uk">WelshLanguagePolicyMatters@cardiff.gov.uk</a> ]	5.4.1	Responsibility for monitoring the Scheme will rest with the Clerk of the Council. [Sources of advice available include the Welsh Language Commissioner <a href="mailto:post@cyg-wlc.wales">post@cyg-wlc.wales</a> and the Bilingual Cardiff policy team <a href="mailto:WelshLanguagePolicyMatters@cardiff.gov.uk">WelshLanguagePolicyMatters@cardiff.gov.uk</a> ]
Bydd y Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol byr ar weithredu'r Cynllun a fydd yn cael ei arddangos ar y wefan ac yn lleol (y wasg leol, byrddau gwybodaeth lleol, papurau bro ac ati) gyda chopi yn cael ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg. Hefyd, bydd y Cyngor yn gwahodd trigolion lleol i gynnig eu barn ar y gwasanaeth a sut y gellid ei wella, drwy roi copi o'r Adroddiad mewn man cyhoeddus addas yn y gymuned.	5.4.2	The Council will receive a brief annual report on implementing the Scheme that will be displayed on the website and locally (local press, local information boards, papurau bro etc) with a copy being sent to the Welsh Language Commissioner. Also, the Council will invite local residents to offer their views on the service and how it could be improved, by placing a copy of the Report in a suitable public place in the community.
Bydd yr Adroddiad yn ymdrin â phob agwedd ar y Cynllun.	5.4.3	The Report will address every aspect of the Scheme.
Bydd y Cyngor yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd (drwy lythyr, e-bost neu gyfathrebu dros y ffôn) ynghylch gwelliannau i unrhyw agwedd ar y Cynllun.	5.4.4	The Council will welcome suggestions from the public (by letter, e-mail or telephone communication) regarding improvements to any aspect of the Scheme.
<b>Cyhoeddusrwydd</b>	<b>5.5</b>	<b>Publicity</b>
Bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd rheolaidd i'r Cynllun [Fel yr uchod yn 5.4.2].	5.5.1	The Council will publicise the Scheme regularly [as above in 5.4.2].
<b>Cysylltu â'r Cyngor</b>	<b>5.6</b>	<b>Contacting the Council</b>

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, cwynion neu awgrymiadau ynglŷn â'r Cynllun at Glerc y Cyngor: <a href="mailto:clerk@oldstmellonscommunitycouncil.org.uk">clerk@oldstmellonscommunitycouncil.org.uk</a>	5.6.1	Any comments, complaints or suggestions regarding the Scheme should be addressed to the Clerk of the Council: <a href="mailto:clerk@oldstmellonscommunitycouncil.org.uk">clerk@oldstmellonscommunitycouncil.org.uk</a>
<b>Gweithdrefn Gwyno</b>	<b>5.7</b>	<b>Complaints Procedure</b>
I fod yn ddilys, rhaid cyflwyno cwyn ynghylch methiant honedig i gydymffurfio â'r Cynllun iaith Gymraeg i'r Clerc yn ysgrifenedig (oni bai bod amgylchiadau personol yn atal hynny) o fewn <b>12</b> misoedd i pan y daw'r achwynydd yn ymwybodol o'r mater. Dylid rhoi amser rhesymol i'r Cyngor ymateb.	5.7.1	To be valid a complaint regarding an alleged failure to comply with the Welsh Language Scheme has to be submitted to the Clerk in writing (unless personal circumstances prevent that) within <b>12</b> months of the complainant becoming aware of the matter. The Council should be given reasonable time to respond.
Os nad yw'r achwynydd yn fodlon ar ymateb y Cyngor, gellir anfon y gŵyn ymlaen at Gomisiynydd y Gymraeg i'w hystyried. Os bernir nad yw'r gŵyn yn ddilys, bydd y Comisiynydd yn esbonio sut i wneud cwyn ddilys.	5.7.2	If the complainant is unsatisfied with the Council's response, the complaint can be forwarded to the Welsh Language Commissioner for consideration. If the complaint is not deemed to be valid, the Commissioner will explain how to make a valid complaint.
Ar ôl derbyn cwyn ddilys, gall y Comisiynydd benderfynu ymchwilio iddo neu i ymchwilio mewn ymateb i fethiant arall a amheuir sy'n ymwneud â'r Cynllun.	5.7.3	On receiving a valid complaint, the Commissioner may decide to investigate or investigate in response to another suspected failure with regards to the Scheme.
Wrth gynnal ymchwiliad, bydd y Comisiynydd yn: - Gofyn i'r sefydliad am wybodaeth - Dadansoddi tystiolaeth a phenderfynu a yw'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â'i gynllun iaith Gymraeg - Paratoi adroddiad drafft ar y casgliadau gan gynnwys unrhyw argymhellion - Rhoi cyfle i'r sefydliad wirio'r ffeithiau - Cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar ei wefan ac anfon copi i'r sefydliad a'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y Gymraeg .	5.7.4	When holding an investigation, the Commissioner will: - Ask the organisation for information - Analyse evidence and determine whether or not the organization has failed to comply with its Welsh language scheme - Prepare a draft report on the conclusions including any recommendations - Give the organisation the opportunity to check the facts - Publish the final report on its website and send a copy to the organisation and the Minister with responsibility for the Welsh language.
<b>Adolygu</b>	<b>5.8</b>	<b>Review</b>
Bydd y Cyngor yn adolygu'r Cynllun hwn ynghyd â'i gynnwys bob <b>3</b> blynedd ac yn anfon copi at Gomisiynydd y Gymraeg. <a href="mailto:post@cyg-wlc.cymru">post@cyg-wlc.cymru</a>	5.8.1	The Council will review this Scheme and its contents every <b>3</b> years and a copy sent to the Welsh Language Commissioner. <a href="mailto:post@cyg-wlc.wales">post@cyg-wlc.wales</a>